# Digwyddiad gofal cymdeithasol gyda People First Caerdydd

Gwrandawodd Llais arnoch chi a rhannu eich barn gyda'r Bwrdd Iechyd a Chyngor Caerdydd. I weld yr atebion llawn, cysylltwch â swyddfa Llais Caerdydd a'r Fro.



**Dywedoch chi:**

Dylai gwybodaeth fod yn haws i'w darllen, gyda thaflenni Saesneg a Chymraeg wedi'u gwahanu.

**Dywedon nhw wrthym ni:**

Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn rhoi gwybodaeth yn y Gymraeg ac yn y Saesneg mewn fersiynau Hawdd eu Darllen ar wahân.

Hoffai'r Tîm Anabledd Dysgu weithio gyda People FIrst Caerdydd i weld pa wybodaeth y gellir ei gwahanu.




**Dywedoch chi:**

Dylai gwybodaeth am ofal a thaliadau'r GIG fod yn glir.

**Dywedon nhw wrthym ni** :

Gweithiodd y Gwasanaeth Anableddau Dysgu gyda People First i greu gwefan Hawdd ei Darllen yn egluro:

- beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud
- asesiadau a chymhwysedd

- gallu meddyliol
- hawliau pobl
- eiriolaeth

Bydd pob deintydd ac optegydd yn gosod posteri a gall staff esbonio faint mae gwasanaethau'n ei gostio.



**Dywedoch chi:**

Mae angen i staff ddeall anghenion unigol a diwylliannol pobl.

**Dywedon nhw wrthym ni:**

- Mae Cyngor Caerdydd yn annog pobl i siarad os oes ganddyn nhw bryderon.
- Mae gwefan Anabledd Dysgu yn esbonio sut i godi pryder.



**Dywedoch chi:**


Dylai staff gefnogi pobl i fyw eu bywydau beunyddiol heb gyfyngiadau diangen.

**Dywedon nhw wrthym ni:**

Mae Cyngor Caerdydd yn gwybod nad oes digon o staff gofal cymdeithasol.

Maen nhw'n gweithio ar hyn drwy:

- cadw staff drwy Strategaeth Gweithlu
- recriwtio a hyfforddi mwy o bobl
- rhedeg Academi Gofal Caerdydd i annog pobl i weithio ym maes gofal.



**Dywedoch chi:**

Rhaid i restr aros ddeintyddol y GIG fod yn hygyrch i bobl ag anableddau dysgu.

**Dywedon nhw wrthym ni:**

Gall pobl ffonio'r Bwrdd Iechyd ar 02920 747747 os oes angen help arnyn nhw i ymuno â'r rhestr aros.

Gall y Bwrdd Iechyd ofyn i Gofal Iechyd Digidol Cymru wella'r system, fel ei bod hi'n haws i bobl ag anableddau dysgu ei defnyddio.




Diolch am rannu eich profiadau gyda Llais. Gobeithiwn y gall y sgyrsiau hyn helpu i lunio gwell iechyd a gofal cymdeithasol i bobl ag anableddau dysgu.


WWW.LLAISCYMRU.ORG
YmholiadauCardiffandvale@llaiscymru.org
02920 750112